# Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- a gynhaliwyd ar nos Iau, 4ydd o Dachwedd, 2021 drwy 'Zoom', am 7:30 y.h. o flaen y prif gyfarfod.**

***Yn bresennol***: Y Cynghorwyr, Tegid Jones (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans, Aled Davies a'r Clerc.

***Ymddiheuriadau***.
Cynghorydd Sion Aled Jones.

**Ar y rhaglen.**

1. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 12fed o Dachwedd 2020.

2. **Cyllideb 2021/22** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Cafwyd adroddiad manwl o'r union wariant hyd yma (roedd taflenni wedi cael eu rhannu drwy ebost o flaen y cyfarfod) ac fe'i cymharwyd gyda'r gyllideb a bennwyd. Fe gedwir golwg manwl arnynt bob mis drwy anfon ebost at y Cynghorwyr o flaen y cyfarfod, a bod y Cadeirydd yn ei llofnodi.
Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflen 'excel'oedd yn dangos:-

- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2022
- Y gyllideb llif arian cyfrif arian budd-cymunedol Lightsource hyd at 04.11.2021
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2022-2023

Roedd rhain yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2022.

Ar 03.11.2021 roedd y symiau isod yn y 3 cyfrif:-

| Cyfrifon | £ |
|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 16,287.48 |
| Cyfrif Budd cymunedol (Lightsource) | 823.61 |
| Cyfrif cadw | 4,583.31 |
| Cyfanswm | 21,694.40 |

3. **Cynlluniau gwariant o ddyddiad y cyfarfod hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.**
Eglurwyd fod ambell i beth angen ei dalu, ond nad oeddem wedi derbyn biliau amdanynt eto, fel ag sydd ar y daflen 'excel', megis bil cae chwarae Llangybi, archwilio allannol a glanhau llochesi bws, ac heb glywed dim am y cynllun O Ddrws i Ddrws.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2022, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **<u>Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2022-2023:-</u>**
- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Clirio tir y Cyngor ym Maenywern – angen gwneud hyn yn flynyddol.
- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – tua £250.00 bob blwyddyn.
- Diffibileiddiwr yng nghanol Rhoslan ac yn ymyl Capel y Beirdd oherwydd nad oes un yn yr ardal- clustnodi £1000.00 i dalu amdanynt gan obeithio gellir cael arian grant tuag atynt.

5. **<u>Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol</u>**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Mae £823.61 ar ol yn y cyfrif ar 03.11.2021.

Derbyniwyd £3951.39 ar 07.02.2020, a £3996.20 ar 19.02.2021 (sef £44.81 y fwy) a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn ddechrau 2022.
Prynwyd 11 o lechi gan Lechi'r Ddraig i wneud arwyddion pontydd am gost o £660.00 ar 06.07.2021, ac mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ei gosod nhw.

Bydd angen talu am y Wifi yn Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Chapel Pencaenewydd - heb gael biliau ganddynt eto, a bydd rhain yn cael ei talu o'r cyfrif Budd-cymunedol (Lightsource) cyn diwedd Mawrth 2022. Llynedd roedd y ffigwr yma'n £1389.90.

Llynedd rhoddwyd £500.00 at O Ddrws i Ddrws, ond nid yw'r Clerc wedi clywed ganddynt eleni.

Bydd angen gwneud taliadau tuag at fudiadau lleol hefyd, (talwyd £1,400.00 llynedd yn cynnwys O Ddrws i Ddrws).

| **Derbyniadau a gwariant rhwng 01.04.2021 – 04.11.2021** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Dygwyd ymlaen<br>£ | Talwyd<br>£ | Rheswm | Swm ar ol<br>£ |
| 01.04.2021 | 2483.61 | | | 2483.61 |
| 06.07.2021 | | -660.00 | Llechi'r Ddraig | 1823.61 |
| 11.09.2021 | | -1000.00 | Diffibiwleiddiwr Llanystumdwy | 823.61 |

| **Rhagolwg rhwng 05.11.2021 – 31.03.2022** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Dygwyd ymlaen<br>£ | Derbyn<br>£ | Talu<br>£ | Rheswm | Swm ar ol<br>£ |
| 01.02.2022 | 823.61 | 3996.20 | | Gelli Gron | 4819.81 |
| 10.02.2022 | | | -1389.90 | 3 Wifi | 3429.91 |
| 10.02.2022 | | | -1400.00 | Rhoddion | **2029.91** |
| | | | | | |
| | | | | | |

6**. Dewis Praesept 2022–2023** mae'r ffigwr yn £18,000.00, ers dwy flynedd rwan. Argymhellwyd i godi'r ffigwr yma i gyd fynd a ffigwr chwyddiant o 2%, sef **£18,360.00. Mae'n bosib y bydd costau ychanegol oherwydd yr etholiadau fis Mai 2022, ond nid yw'n bosib gwybod faint fydd hynny eto.**
Bydd angen gwneud **penderfyniad terfynol erbyn ein cyfarfod llawn ar 06.01.2022, er mwyn i'r cynghorwyr i gyd gytuno.**

7. **Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2022.**
Llynedd talwyd £8,100.00 o'r cyfrif cyfredol, a £2789.90 (£1400.00 rhoddion & £1389.90 Wifi) o'r cyfrif Budd Cymunedol yn gwneud **cyfanswm o £10,889.90**.
Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, oherwydd cyfnod y 'clo', ond cytunwyd i gadw'r cyfanswm tuag at y ceisiadau ariannol yr un fath a llynedd os bydd angen. Bydd angen gwneud penderfyniad terfynol erbyn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2022.

(Uchafswm gwariant y gellir ei wneud yw £8.41 x 1518 o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = £12,766.38)